



POLISI AR GYFER YMATEB I GEISIADAU GAN STAFF

Amlinellir isod y trefniadau i'w dilyn wrth ddelio gyda cheisiadau gan staff i adolygu eu cytundebau gwaith neu faterion cytundebol arall. Mae'r polisi'n amlinellu'n glir y drefn a'r amserlen ar gyfer ymateb i geisiadau, a gobeithir y bydd y trafodaethau yn digwydd mewn awyrgylch o ymddiried a throloywder.

TREFN :

- Y cam cyntaf yn y broses yw trafodaeth agored rhwng yr aelod staff a'r rheolwr llinell, i amlinellu'r rhesymau y tu ôl i'r cais, ac i drafod oblygiadau caniatâu'r cais ar weithrediad yr uned/cwmni;
- Dylai'r unigolyn gyflwyno ei gais mewn ysgrifen, yn nodi'r hyn mae'n ei ofyn amdano a'r rhesymau ayyb. Fe roddir cydnabyddiaeth ysgrifenedig gan CYNNAL fod y cais wedi'i dderbyn o fewn 14 diwrnod;
- O fewn 6 wythnos o dderbyn y cais, cyflwynir y cais i'r Is-Bwyllgor Personél, ac fe wneir penderfyniad unai i wrthod neu ganiatau'r cais, unai'n gyfangwbl neu rhannol. *(Fe all yr Is-Bwyllgor Personél benderfynnu eu bod yn dymuno gwahodd yr unigolyn neu'i gynrychiolydd i fynychu'r cyfarfod i gyflwyno'r cais.)*
- Hysbysir yr aelod staff yn swyddogol, mewn ysgrifen, o benderfyniad yr Is-bwyllgor Personél o fewn 14 diwrnod, gan nodi'r rhesymau os y gwrthodwyd y cais;
- Os y caniateir y cais, fe ddechreuir gweithredu ar benderfyniad yr Is-bwyllgor Personél o fewn 2 wythnos o ddyddiad y cyfarfod;
- Pe bae'r aelod staff yn anfodlon gyda phenderfyniad yr Is-bwyllgor Personél, dylai ddatgan ei fwriad i gyflwyno apêl mewn ysgrifen o fewn 14 diwrnod o dderbyn cadarnahad o benderfyniad yr Is-bwyllgor Personél. Bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan gynrychiolaeth o weddill Pwyllgor Rheoli CYNNAL, a bydd hawl gan yr aelod staff i gael cynrychiolydd yn bresennol yn y cyfarfod apêl. Cynhelir y cyfarfod o fewn 28 diwrnod o dderbyn y rhybudd apêl.